Gweithgaredd Dosbarth

# Caethwasiaeth ddoe a heddiw

amgueddfa cymru
national museum wales

amgueddfa.cymru/addysg






Mae caethwasiaeth wedi bod yn digwydd ers miloedd o flynyddoedd. Roedd y Rhufeiniaid yn defnyddio caethweision fel ffordd o redeg eu Hymerodraeth.

Roedd rhai caethweision yn cael eu trin yn dda, ond bu farw eraill mewn amodau arswydus. Cafodd rhai caethweision eu rhyddhau (datgaethiwo), ond ganwyd a bu farw llawer mewn caethiwed.



# Caethwasiaeth yng nghyfnod y Rhufeiniaid.






I rai Rhufeiniaid, fel ein gwesteiwr Tiberiu Lucilius Maximus, roedd cadw caethweision yn ffordd o ddangos eu cyfoeth.

Roedd Rhufeiniaid yn credu bod unrhyw un oedd ddim yn ddinesydd Rhufeinig yn israddol. Fyddai Tiberius ddim wedi meddwl bod defnyddio caethweision yn anghywir. Iddo ef, byddai'n beth normal achos dyna oedd pawb arall yn ei wneud.

**Tiberius**



Helo, Brighid ydw i a dwi'n dod o Fritannia. Ces i fy nghipio gan y Rhufeiniaid a fy ngwerthu fel caethwas. Gwnaeth fy meistr fy ailenwi yn Aurelia - sy'n golygu euraid - am fod gen i wallt melyn. Fy ngwaith i yw gweini dros y meistr a'i ffrindiau yn y wledd. Well i mi beidio gollwng unrhyw beth, neu fe ga' i fy nghuro.

**Brighid**



Salve! Fronto ydw i a dwi'n un o brif gaethweision y Meistr. Fi yw'r prif gludwr cwpanau, ychydig fel bytler, a fy ngwaith i yw trefnu'r wledd heno. Mae'n mynd i fod yn noson fawr, a rhaid i bopeth fod yn iawn. Mae cymaint i'w wneud!

**Fronto**

**C: Sut ydych chi'n meddwl oedd Aurelia/Brighid neu Fronto yn teimlo am fod yn gaethweision?**

# Beth oedd y Rhufeiniaid yn ei ddweud am gaethweision?

**Rhannwch yn grwpiau i astudio beth ddywedodd rhai Rhufeiniaid am gaethweision. Darllenwch y cwestiynau ar y dudalen nesaf a pharatowch eich atebion fel grŵp. Trafodwch eich atebion fel dosbarth.**

***Seneca***

*"Edrychwch ar y gegin, a'r cogyddion sy'n gweithio'n brysur o amgylch y tanau; meddyliwch chi - ai ar gyfer un stumog mae'r holl fwyd hwn yn cael ei baratoi?"*

***Apuleius***

*"Roedd nifer fawr o linellau ar hyd eu croen yn dangos marciau hen fflangelliadau, a gallech eu gweld drwy'r tyllau yn eu crysau a oedd yn cysgodi yn hytrach na gorchuddio eu cefnau creithiog; ond dim ond lliain lwynau oedd rhai yn eu gwisgo. Roedd ganddynt lythrennau wedi'u serio ar eu talcennau, a phennau wedi'u hanner siafio a haearn ar eu coesau. Roedd eu gwedd yn ofnadwy o felyn, eu hamrantau wedi'u gorchuddio â mwg y ffyrnau poeth, eu llygaid mor niwlog a llidiog nes eu bod yn cael trafferth gweld."*

***Horace***

*"Mae'n fy ngwneud i'n sâl i weld caethwas â bachau seimllyd, o lyfu'r bwyd y mae wedi'i ddwyn."*

***Petronius***

*"Aeth e erioed i'r ysgol, ond fe wnes i ei addysgu wrth ei anfon o gwmpas y gwerthwyr yn y farchnad. Mae'n glyfar iawn; mae'n grydd hefyd, ac yn gogydd, yn gyffeithiwr, yn gaethwas amldalentog. Dim ond dau fai sydd ganddo fe, a byddai'n berffaith hebddyn nhw. Prynais i fe am dri chant denarii."*

***Cicero***

*"Mae'r gweision sy'n gweini yn ffiaidd o fudr ac ambell un yn eiddil; mae un dyn yn gwneud gwaith cogydd a stiward. Nid yw'n cadw pobydd na phantri llawn, ac mae'n prynu ei fara a'i win".*

# Cwestiynau i'w trafod:

**Darllenwch y cwestiynau a pharatowch atebion i'w trafod.**

- Oedd yr holl Rufeiniaid yn meddwl yr un fath am gaethweision? Trafodwch pwy oedd yn poeni am y caethweision a phwy oedd ddim.
- Dewiswch ddau ddyfyniad a dywedwch sut maen nhw'n gwneud i chi deimlo, a pham?
- Oedd bywyd pob caethwas yr un fath? Esboniwch eich ateb.
- Pe baech chi'n byw yng nghyfnod y Rhufeiniaid - sut ydych chi'n meddwl byddech chi wedi teimlo am fod â chaethwas?
- Pe baech chi'n byw yng nghyfnod y Rhufeiniaid - sut ydych chi'n meddwl byddech chi wedi teimlo am fod yn gaethwas?
- A yw barn pobl am gaethwasiaeth wedi newid ers cyfnod y Rhufeiniaid?

Gweithgaredd Dosbarth

# Ydi caethwasiaeth dal i ddigwydd heddiw?

amgueddfa.cymru/addysg





Credir bod miliynau o blant ac oedolion yn gaethweision ym mhob rhan o'r byd. Gan gynnwys y wlad hon.

Ecsbloetiaeth ddifrifol o bobl eraill er budd personol neu fasnachol yw caethwasiaeth fodern. Mae llawer gwahanol fath o gaethwasiaeth fodern, yn cynnwys llafur gorfodol, masnachu pobl, priodas dan orfodaeth a chaethwasiaeth plant.



# Allwn ni helpu i roi stop ar gaethwasiaeth?

Ydych chi erioed wedi bwyta siocled? Do, siŵr o fod! Ond oeddech chi'n gwybod bod rhai siocledi yn gysylltiedig â chaethwasiaeth plant?

Mae siocled yn dod o ffa coco. Mae tua 2 filiwn o blant yn rhan o ffermio ffa coco, nifer ohonynt yn gaethweision. Mae rhai yn gorfod gweithio i gefnogi'u teuluoedd, ond mae rhai'n cael eu gwerthu i weithio ar ffermydd coco. Mewn ymchwiliad diweddar i ffermydd sy'n cyflenwi coco i gwmni Nestle, daeth yn amlwg bod 7% o weithwyr y ffermydd coco yn blant.

**https://www.fairlabor.org/blog/entry/fla-highlights-underlying-challenges-child-labor-after-extensive-investigation-nestl%C3%A9**

Mae'r rhan fwyaf o'r plant hyn rhwng 12 a 16 oed, ond mae rhai mor ifanc â 5. Mae eu diwrnod yn cychwyn am 6am, ac mae'n rhaid i'r plant ddefnyddio llif gadwyn i glirio'r fforestydd.

Maen nhw'n defnyddio cyllyll mawr, trwm o'r enw machetes i dorri'r ffa coco i'w rhoi mewn sachau mawr sy'n pwyso hyd at 100 pwys. Rhaid llusgo'r rhain yn ôl i'r fferm.

***Dywedodd Aly Diabate, cyn-gaethwas coco:***
*"Roedd rhai o'r bagiau'n dalach na fi. Roedd angen dau berson i roi'r bag ar fy mhen. Ac os nad oeddech chi'n brysio, roeddech chi'n cael eich curo."*

## Mae'r dewis yn eich dwylo chi!

Mae rhai cwmnïau yn sicrhau bod dim caethweision yn rhan o gynhyrchu eu siocled, a gallwn ni benderfynu prynu siocled gan y cwmnïau hyn yn unig. Yn well fyth, gallwn brynu cynnyrch Masnach Deg.

FAIRTRADE

# Erthyglau am gaethwasiaeth fodern a bwyd.




**Child labour on Nestlé farms: chocolate giant's problems continue**

Auditors completing their annual report continue to find evidence of child labour on Ivory Coast farms supplying Nestlé



**Child Labor and Slavery in the Chocolate Industry**

Chocolate is a product of the cacao bean, which grows primarily in the tropical climates of Asia, Latin America, and Western African countries, mostly Ghana and the Ivory Coast...

Food Empowerment Project

# Cwestiynau i'w trafod:

**Darllenwch y cwestiynau a pharatowch atebion i'w trafod.**

- Pam ydych chi'n meddwl fod gan bobl gaethweision yng nghyfnod y Rhufeiniaid?
- Pam ydych chi'n meddwl fod gan bobl gaethweision heddiw?
- Ydi pethau wedi newid ers cyfnod y Rhufeiniaid? Ydych chi'n meddwl fod pethau'n well neu'n waeth heddiw?
- Pam na ddylen ni fod â chaethweision heddiw? A yw'n deg?
- Sut mae eich bywyd chi'n wahanol i fywydau plant ifanc sy'n gweithio fel caethweision?
- Sut allwch chi helpu i stopio caethwasiaeth plant?